Hydref 2020

**'Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn' – ein hymchwiliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Yn bennaf oll, ar ran Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd, hoffwn ddiolch i chi am yr holl waith rydych chi a'ch cydweithwyr wedi'i wneud dros bobl ifanc drwy gydol y pandemig. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth sobreiddiol ynghylch maint yr heriau yr ydych yn eu hwynebu. Nid ydym yn diystyru'r ffaith eich bod yn gweithio o dan bwysau enfawr.

Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i ofyn am eich cefnogaeth i ennyn diddordeb pobl ifanc yn ein gwaith, er fy mod yn deall efallai na fydd yn bosibl i chi wneud hynny.

Serch hynny, o ystyried pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i bobl ifanc, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19 ac adferiad Cymru, rhaid i'r Pwyllgor wneud pob ymdrech i glywed gan bobl ifanc eu hunain. Mae hwn yn gyfle pwysig i bobl ifanc gyfrannu at ymchwiliad uchelgeisiol a hollgynhwysol a fydd yn edrych yn fanwl ar y ddeddfwriaeth arloesol hon sy'n effeithio ar ddyfodol pob un ohonynt.

## Ein hymchwiliad

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn cynnal ymchwiliad i **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").**

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn esbonio:

> *Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.*[1]

Rydym yn casglu barn ynghylch pa mor dda y gweithredwyd y Ddeddf ers iddi ddod i rym yn 2015 a sut y gellir ei gweithredu'n well yn y dyfodol.

[1] Comisiynnydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

## Clywed barn pobl ifanc

Rydym am glywed yr hyn y mae pobl ifanc yn ei wybod o ran:

- ymwybyddiaeth o’r Ddeddf;
- profiadau pobl ifanc o sut y gweithredwyd y Ddeddf;
- safbwyntiau ynghylch beth yw'r rhwystrau i weithredu'r Ddeddf; a
- sut y gellir ei gweithredu'n well yn y dyfodol.

Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori'n helaeth ar y pwnc hwn cyn i'r sesiynau tystiolaeth ddechrau ym mis Rhagfyr 2020.

Rydym wedi paratoi adnoddau ar gyfer ysgolion a grwpiau ieuenctid i ddarparu gweithgaredd gyda'u grwpiau, casglu barn pobl ifanc a chyflwyno'r safbwyntiau hynny i ni.

Cliciwch ar y lincs isod i gael mynediad at yr adnoddau:

- Cyflwyniad Power Point
- Pecyn adnoddau gweithgareddau

Rydym yn gobeithio’n fawr iawn y gallwch ein cefnogi yn y gwaith hwn. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymchwiliad neu’r pecyn adnoddau.

P'un a ydych yn dewis cymryd rhan yn uniongyrchol ai peidio, rhowch wybod i ni os hoffech i'n tîm ymgysylltu â dinasyddion[2] roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr ymchwiliad a'r cyfraniadau a gawn gan bobl ifanc.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau yw **dydd Llun 7 Rhagfyr 2020.**

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

[2] Cysylltwch â: Rhayna.mann2@senedd.cymru